

PRYDAU YSGOL AM DDIM

Mae Prydau Ysgol Am Ddim ar gael yn unig i'r plant hynny y mae eu rhieni / gwarcheidwaid yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:-

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceiso Gwaith (yn seiliedig ar incwm)
- Cymorth o dan ran V1 o Ddeddf Mewnfudno a Lloches (1999)
- Elfen Warant o Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth Credyd Treth Plant, ond NID YDYNT yn derbyn dim Credyd Treth Gwaith, ac nid yw eu hincwm blyneddol (yn ôl asesiad Cyllid y Wlad) yn fwy na £16,190 (Ebrill 2013)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail Incwm
- Credyd Cynhwysol

Pa Brawf fydd ei angen arnaf?

Dyma restr o'r math o brawf y bydd ei angen arnoch:-

- Llungopi o'r llythyr penderfyniad gan y swyddfa budd-daliadau yn dangos bod gennych hawl i Gymorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith-yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Cynhwysol neu
- Llungopi o'ch Credyd Treth Incwm y Wlad / Credyd Pensiwn, neu
- Eich Ffurflen gais wedi'i stampio a'i dyddio gan y swyddfa budd-daliadau yn dangos pa fudd-dal y mae gennych hawl iddo, neu
- Y prawf sydd ei angen ar Geiswyr Lloches i gael prydau ysgol am ddim i'w plant sef eu llythyr IND neu Gerdyn IND, Llythyr Gwasanaethau Cymdeithasol neu eu Llythyr NASS



Sut wyf yn gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim?

- Y ffordd hawsaf a chyflymaf yw ar-lein drwy ein gwefan www.sirgar.gov.uk
- Ffonio 01267 246521 / 246526 a bydd ffurflen yn cael ei hanfon atoch, [neu](#)
- Gallwch anfon ebost at FreeSchoolMeals@sirgar.gov.uk yn cynnwys eich enw a'ch cyfeiriad a bydd ffurflen yn cael ei hanfon atoch, [neu](#)
- Gallwch gasglu ffurflen o ysgol eich plentyn

